# Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol

(ar 28 Chwefror 2026)


| | |
|---|---|
| CYFLWYNIAD | 2 |
| Cefndir | 2 |
| Annibyniaeth a Gwrthrychedd | 2 |
| Cyfrifoldebau Nad Ydynt yn Rhai Archwilio | 2 |
| Cydymffurfio â Safonau Archwilio | 3 |
| Datblygiad Proffesiynol Parhaus | 4 |
| CRYNODEB O'R GWAITH A GYFLAWNWYD | 4 |
| Gweithgareddau Presennol | 4 |
| Adnoddau | 7 |
| Cynllun Blynyddol | 8 |
| Canfyddiadau Critigol neu Dueddiadau sy'n Dod i'r Amlwg *(Ch4 2025/26 - ar 28.02.2026)* | 10 |
| Canfyddiadau Gwerth am Arian *(Ch4 2025/26 - ar 28.02.2026)* | 10 |
| PERFFORMIAD ARCHWILIO A GWERTH YCHWANEGOL | 10 |
| Gwerth Ychwanegol | 10 |
| Perfformiad | 11 |
| Gweithredu Cynllun Archwilio | 12 |
| Argymhellion | 12 |
| CASGLIAD | 13 |

Atodiad A — Statws yr Adroddiad ar 28 Chwefror 2026
Atodiad B — Crynodeb o’r Argymhellion


Paratowyd gan: Chris Pyke, Rheolwr Archwilio

# ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL

## 1. CYFLWYNIAD

### 1.1 Cefndir

Mae'r Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol hwn yn crynhoi perfformiad yn erbyn y Cynllun Archwilio, gan gynnwys gwaith a gwblhawyd, canfyddiadau allweddol, argymhellion, tueddiadau sy'n dod i'r amlwg, ac arsylwadau gwerth am arian. Mae’n cwmpasu’r cyfnod o 1 Ionawr i 28 Chwefror 2026 ac yn dilyn y diweddariadau a ddarparwyd yn y cyfarfod Pwyllgor ar 27 Ionawr.

Mae'r Cynllun Archwilio yn darparu'r fframwaith ar gyfer gwaith archwilio blynyddol, sy’n cyd-fynd â threfniadau llywodraethu'r Cygnor sy'n ymateb i risgiau newidiol gydol y flwyddyn.

### 1.2 Annibyniaeth a gwrthrychedd

Ni chafwyd unrhyw amhariadau ar annibyniaeth na gwrthrychedd dros y cyfnod adrodd. Mae’r is-adran Archwilio Mewnol yn adrodd i’r Rheolwr Archwilio. Cynhelir annibyniaeth sefydliadol gan nad yw'r Rheolwr Archwilio yn gyfrifol am reoli unrhyw swyddogaethau y tu hwnt i'r timau Ymchwilio ac Archwilio Mewnol. Mae'r Rheolwr Archwilio yn adrodd yn weinyddol i'r Pennaeth Cyllid ac yn swyddogaethol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am faterion sy'n ymwneud ag archwilio.

### 1.3 Cyfrifoldebau Nad Ydynt yn Rhai Archwilio

Ar 25 Mawrth 2025, ystyriodd y Pwyllgor ac nid oedd ganddo unrhyw wrthwynebiadau mewn egwyddor, penodi'r Rheolwr Archwilio fel Cyfarwyddwr yn lle’r swyddog Cyngor a oedd yn gadael Rhwydwaith Gwres Caerdydd. Mae Rhwydwaith Gwres Caerdydd yn Gorff Pwrpas Arbennig hyd braich sy’n eiddo llwyr i’r Cyngor. Mae'r Prif Weithredwr yn cymeradwyo unrhyw newidiadau i Aelodau'r Bwrdd, ac mae penodi'r Rheolwr Archwilio fel Cyfarwyddwr yn cael ei ffurfioli.

Mae'r Siarter Archwilio Mewnol yn dweud: “Mewn unrhyw achos lle mae gan, neu y disgwylir y bydd gan, y Rheolwr Archwilio rolau a / neu gyfrifoldebau sydd y tu allan i archwilio mewnol, sefydlir mesurau diogelu i gynnal annibyniaeth a gwrthrychedd.” Byddai'r mesurau diogelu y cytunwyd arnynt gyda'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2025 yn berthnasol, i reoli unrhyw risg canfyddedig o ran annibyniaeth a gwrthrychedd. Y rhain yw na fyddai'r Rheolwr Archwilio yn ymwneud ag unrhyw waith archwilio sy'n ymwneud â:

I. Rhwydwaith Gwres Caerdydd, a
II. Prosiect Gwyrdd – gan y bydd gan Viridor fecanwaith codi tâl gyda Prosiect Gwyrdd i ganiatáu i'r Parc Trident troi gwastraff yn ynni weithredu yn y modd echdynnu gwres

Yn unol â'r Siarter Archwilio, byddai rheolwr annibynnol sydd â'r cymwysterau a'r sgiliau sy'n ofynnol gan Brif Weithredwr Archwilio, yn unol â'r Safonau Archwilio, yn gyfrifol am oruchwylio unrhyw archwiliadau o'r fath, heb unrhyw ymwneud gan y Rheolwr Archwilio.

1.4 Cydymffurfio â Safonau Archwilio

Roedd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gweithredu o dan Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (SAMSC) tan 31 Mawrth 2025 ac o dan y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (SAMB) ar gyfer Sector Cyhoeddus y DU o 1 Ebrill 2025.

Cynrychiolir y SAMB yn Sector Cyhoeddus y DU gan y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (SAMB), yn unol â Dehongliadau'r Nodyn Cais ar gyfer Sector Cyhoeddus y DU (Nodyn Cais), a Chod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA) ar gyfer Llywodraethu Archwilio Mewnol yn Llywodraeth Leol y DU (Cod).

Mae Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwella (RhSAG) yn cefnogi safonau proffesiynol ac ansawdd gwasanaeth. Mae'r RhSAG yn cynnwys monitro parhaus, adolygiadau cyfnodol, ac asesiad allanol bob pum mlynedd, fel sy'n ofynnol gan y Safonau

Ffocws y Tîm Rheoli Archwilio yw ymgorffori'r drefn newydd, a gefnogir gan ddatblygu methodolegau archwilio newydd i roi arweiniad i staff, rhaglen hyfforddi a datblygu a'r diweddariadau i'r Strategaeth Archwilio a'r Siarter a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2025.

Cafodd yr asesiad allanol 5 mlynedd diweddaraf gyda SAMSC ei gwblhau a'i adrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Mawrth 2023, dan arweiniad y Prif Archwilydd yng nghynghorau Sir Fynwy / Dinas Casnewydd, a bennwyd i ymgymryd ag asesiad cymheiriaid o wasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Caerdydd. Nid yw'r asesiad wedi nodi unrhyw ddiffyg cydymffurfio na diffyg cydymffurfio rhannol. Disgwylir yr asesiad allanol nesaf erbyn mis Mawrth 2028, a bydd yn asesu cydymffurfio â'r SAMB yn Sector Cyhoeddus y DU.

1.5 Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Cafodd gwaelodlin cryf o wybodaeth a sgiliau ei gydnabod ar draws y Tîm Archwilio Mewnol trwy adolygiad blynyddol y Rheolwr Archwilio, wedi ei lywio gan adolygiadau personol ac asesiadau sgiliau

Mae staff archwilio wedi ffurfioli amcanion ar gyfer 2025/26 yn unol ag amserlenni corfforaethol. Mae Cynllun Hyfforddi ar waith ar gyfer pob archwilydd, gydag anghenion ychwanegol wedi'u nodi trwy adolygiadau personol, goruchwyliaeth, asesiadau ôl-archwilio, a phwyntiau dysgu wedi'u cofnodi. Yn ogystal, cytunwyd ar gyllid ar gyfer un Archwilydd i ddechrau'r cymhwyster Archwilydd Mewnol Ardystiedig (AMA) gyda'r Sefydliad Archwilwyr Mewnol yr hydref hwn.

## 2. CRYNODEB O'R GWAITH A GYFLAWNWYD

Mae'r crynodeb archwilio canlynol yn ymdrin â'r rhaglen waith ar gyfer 2025/26, a'r gweithgareddau, yr adnoddau, y canfyddiadau a'r mesurau perfformiad cysylltiedig yn chwarter pedwar 2025/26 ar 28 Chwefror 2026.

2.1 Gweithgareddau Presennol

Mae unrhyw archwiliadau a oedd wedi'u targedu i'w cwblhau yn 2024/25, ond a oedd yn parhau ar ddiwedd y flwyddyn, wedi'u cwblhau. Mae'r Tîm Archwilio Mewnol wedi bod yn bwrw ymlaen â Chynllun 2025/26 ac wedi darparu cyngor a chanllawiau ddylunio rheolaeth a sicrwydd lle mae angen wedi'i nodi ac mewn achosion o newid prosesau.

Ar 28 Chwefror 2026, mae 42 o archwiliadau newydd wedi'u cwblhau hyd at y cam drafft o leiaf, ac mae 35 o archwiliadau blwyddyn flaenorol wedi'u cwblhau. Ceir crynodeb o allbwn a'r farn archwilio isod.

Ffigur 1. Allbwn a barn archwilio (ar 28 Chwefror 2026)

| Statws | Nifer yr archwiliadau a gwblhawyd | Barn | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Effeithiol | Effeithiol gyda lle i wella | Annigonol ac angen gwelliant mawr | Anfoddhaol | Ni roddwyd barn |
| Drafft | 19 | 0 | 15 | 4 | 0 | 0 |
| Terfynol | 58 | 5 | 34 | 5 | 2 | 12 |
| CYFANSWM | 77 | 5 | 49 | 9 | 2 | 12 |
| | 42 | Ymgysylltiadau Archwilio Newydd a gwblhawyd | | | | |
| | 35 | Ymgysylltiadau Archwilio a orffennwyd o 2024/25 | | | | |

Ffigur 2. Allbwn a barn archwilio 2025/26 (ar 28 Chwefror 2026)

| Rhif | Ymgysylltiad Archwilio Sicrwydd | Barn Archwilio |
|---|---|---|
| 1. | Byw â Chymorth | Effeithiol |
| 2. | Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd | |
| 3. | Gofal Cartref | Effeithiol gyda lle i wella |
| 4. | Cydymffurfiaeth Statudol | |
| 5. | Ysgol Gynradd Gabalfa | |
| 6. | Ysgol Greenhill | |
| 7. | Ysgol Gynradd Sant Padrig | |
| 8. | Gwasanaethau Dydd Iechyd Meddwl | |
| 9. | Canolfan Blant Integredig Trelái a Chaerau | |
| 10. | Gwasanaeth Cyfleusterau i'r Anabl | |
| 11. | Rheoli Risg Technoleg | |
| 12. | Gwerth am Arian - Buddsoddi i Arbed | |
| 13. | Ymdrin â Chwynion Corfforaethol | |
| 14. | Diogelu | |
| 15. | Gwasanaeth Cerdd | |
| 16. | Ysgol Uwchradd y Dwyrain | |
| 17. | Gwasanaethau Profedigaeth | |
| 18. | Trafnidiaeth Ysgol | |
| 19. | Treth Gyngor | |
| 20. | Pensiynau a Buddsoddiadau | |
| 21. | Cyllidebau Diffyg / Rheolaeth Ariannol Ysgolion | |
| 22. | Ysgol Gynradd Gatholig Sant Philip Evans | |
| 23. | Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Paul | |
| 24. | Ysgol Melin Gruffydd | |
| 25. | Ysgol Pwll Coch | |
| 26. | Addysg - CTY | |
| 27. | Milltiredd a Chynhaliaeth | Annigonol, angen Gwelliant mawr |
| 28. | Ystâd Fuddsoddi | |
| 29. | Ysgol Gynradd Sant Cadog | |
| 30. | Ysgol Glan Morfa | |
| 31. | Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern | Anfoddhaol |
| 32. | UCD - Teulu Ysgolion Y Deryn | |
| Gwaith Archwilio gyda 'Dim Barn' | | |
| 33. | Cydbwyllgorau - Prosiect Gwyrdd | Cynghorol, |

| Rhif | Ymgysylltiad Archwilio Sicrwydd | Barn Archwilio |
|---|---|---|
| 34. | Cydbwyllgorau – Awdurdod Iechyd Porthladd | ardystiad, cyngor ac arweiniad |
| 35. | Cydbwyllgorau - Archifau Morgannwg | |
| 36. | Ffurflen Corff Bach - Cydbwyllgor y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru | |
| 37. | Grant Arloesi | |
| 38. | Cynghorol Dull Profi Awtomeiddio Proses Robotig - Proses SAP a Chyfrifon Taladwy | |
| 39. | System CAM Newydd – Cynghorol | |
| 40. | Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Caerdydd 2024/2025 | |
| 41. | Taliadau a Phrosesau Prynu - HRhR 2025/2026 | Risg Rheoli Hunanasesiadau |
| 42. | Cyflogres ac AD - HRhR 2025/2026 | |
| Archwiliadau wedi'u Cwblhau o'r Flwyddyn Flaenorol | | |
| 43. | Prosesau Cyflogres ac AD 2023/2024 | Effeithiol |
| 44. | Dyraniadau, Gosodiadau a Lleoedd Gwag | |
| 45. | Pryniadau, Taliadau a Phrosesau - profi yn ystod y flwyddyn | |
| 46. | Adennill Incwm | Effeithiol gyda lle i wella |
| 47. | Ysgol Gynradd Llys-faen | |
| 48. | Tîm Dyletswydd Argyfwng | |
| 49. | Gofal Preswyl | |
| 50. | Gwasanaethau Llywodraethwyr | |
| 51. | Ysgol Gynradd yr Holl Saint | |
| 52. | Ysgol Uwchradd Caerdydd | |
| 53. | Ysgol Hamadryad | |
| 54. | Ysgol Gynradd Tredelerch | |
| 55. | Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant | |
| 56. | Ysgol Gyfun Radur | |
| 57. | Cyflogres ac AD, Profi yn Ystod y Flwyddyn 2024/25 | |
| 58. | Datblygu ac Adfywio Tai | |
| 59. | Ysgol Uwchradd Corpus Christi | |
| 60. | Archwiliad dilynol – Falconwood | |
| 61. | Ysgol Meadowbank | |
| 62. | Ysgol Plasmawr | |
| 63. | Ysgol Gynradd Llanedern | |
| 64. | Arian Poced a Chynilion Plant | |
| 65. | Datgan Buddiannau | |

| Rhif | Ymgysylltiad Archwilio Sicrwydd | Barn Archwilio |
|---|---|---|
| 66. | Rhaglenni a Phrosiectau | |
| 67. | Ysgol Gynradd Coryton | |
| 68. | Ysgol Gynradd y Tyllgoed | |
| 69. | Ysgol Gynradd Tongwynlais | |
| 70. | Cynnal a Chadw Priffyrdd | |
| 71. | Rheolaethau Caffael o Dan Drothwy'r Tendr | Annigonol, angen |
| 72. | Storfeydd Ffordd Lamby | Gwelliant mawr |
| 73. | Motocross Caerdydd | |
| 74. | Ysgol Uwchradd Llanisien | |
| 75. | Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw Adeiladau | |
| 76. | Adolygiad Cynghorol Ffreutur y Castell | Dim Barn |
| 77. | Adolygiad Ar Ôl Cau Neuadd Dewi Sant | |

Yn ogystal â'r tabl uchod, mae'r allbynnau na roddwyd barn sicrwydd arnynt a'r rhesymau dros hynny fel a ganlyn:

Ffigur 3. Archwiliadau cyflawn heb farn sicrwydd (ar 28 Chwefror 2026)

| Archwiliad | Sylwadau |
|---|---|
| Cydbwyllgorau - Prosiect Gwyrdd | Gwaith i gefnogi cwblhau'r Datganiad Cyfrifon, 2024/25 |
| Cydbwyllgorau – Awdurdod Iechyd Porthladd | |
| Cydbwyllgorau - Archifau Morgannwg | |
| Ffurflen Corff Bach - Cydbwyllgor y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru | Ardystiad |
| Grant Arloesi | |
| Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Caerdydd 2024/2025 | |
| Cynghorol Dull Profi Awtomeiddio Proses Robotig - Proses SAP a Chyfrifon Taladwy | Adolygiadau Cynghorol |
| System CAM Newydd – Cynghorol | |
| Taliadau a Phrosesau Prynu - HRhR 2025/2026 | Hunanasesiadau Rheoli Risg (HRhRau) |
| Cyflogres ac AD - HRhR 2025/2026 | |

Dangosir statws yr adroddiad ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn yn **Atodiad A.**

2.2 Adnoddau

Er mwyn cefnogi cydymffurfiaeth a rheolaeth yn ystod gweithredu'r system Cynllunio Adnoddau Menter (CAM/ERP) corfforaethol, mae adnoddau wedi'u neilltuo o'r tîm archwilio (0.5 CALl/FTE Prif Archwilydd a 0.5 CALl/FTE Uwch Archwilydd) yn weithredol o ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Er mwyn cynnal gwasanaeth archwilio gwydn, mae un Uwch Archwilydd ychwanegol (1.0 cyfwerth ag amser llawn) ac un Archwilydd ychwanegol (0.5 cyfwerth ag amser llawn) wedi cael eu penodi. Mae'r penodiadau hyn wedi arwain at un swydd wag Archwilydd y mae angen ei hôl-lenwi, ac mae trefniadau recriwtio ar y gweill ar gyfer hyn. Mae'r Cynllun Archwilio a gyflwynir yn eitem 6.2 ar yr agenda wedi'i ddatblygu yn seiliedig ar y swyddi'n cael eu llenwi.

Bu un achos o absenoldeb salwch hirdymor yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Cofnododd dadansoddiad o daflenni amser 1,075 o ddiwrnod codi tâl yn erbyn targed pro-rata o 1,405 o ddiwrnodau, gyda'r amrywiad i'w briodoli'n bennaf i salwch, absenoldeb ychwanegol, hyfforddiant a gweinyddu. Er gwaethaf hyn, mae allbwn archwilio cyffredinol wedi parhau i fod yn gadarnhaol (cyfeiriwch at Adran 3.2 – Perfformiad).

Mae amser ar gael ar gyfer gweithgareddau datblygu archwilio, ac mae'r holl archwilwyr yn bwrw ymlaen â'u cynlluniau hyfforddi unigol yn unol â'r fframwaith Datblygiad Proffesiynol Parhaus (Adran 1.5)

2.3 Cynllun blynyddol

Cymeradwyodd y Pwyllgor Gynllun Archwilio 2025/26 yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2025. Ar yr adeg hon, fe'i hysbyswyd o'r sefyllfa yn erbyn Cynllun Archwilio 2024/25 gan gynnwys y targedau archwilio ar gyfer gweddill y chwarter. Rhoddwyd manylion hefyd ynghylch sut y byddai sicrwydd yn cael ei gyflawni ar gyfer ymgysylltiadau archwilio arfaethedig na fyddai'n cael eu cwblhau o Gynllun Archwilio 2024/25.

Bu dechrau da o ran cyflawni Cynllun Archwilio 2025/26, er ei fod yn parhau i fod yn is na'r hyn a dargedwyd (gweler Adran 3.2 – Perfformiad). Mae 19 archwiliad ar y gweill sydd wedi'u targedu i'w cwblhau erbyn diwedd y chwarter. Byddai cyhoeddi'r adroddiadau hyn yn cyflawni 70% o'r Cynllun Archwilio wedi'i dargedu. Bydd unrhyw adroddiadau archwilio nad ydynt wedi'u cyhoeddi ar hyn o bryd yn dilyn yn gynnar yn chwarter un 2026/27.

Caiff archwiliadau eu dyrannu ar sail sy'n darparu'r sicrwydd a'r gwerth mwyaf ac yn lliniaru unrhyw amhariad ar farn flynyddol y Rheolwr Archwilio ar amgylchedd rheoli'r Cyngor ar gyfer 2025/26. Ar ddiwedd y cyfnod adrodd roedd 19 ymgysylltiad archwilio ar y gweill fel a ganlyn.

Ffigur 4. Archwiliadau wedi'u targedu ar gyfer eu cwblhau yn ystod chwarter pedwar.

| Aseinio | Rhan o'r Cynllun | Statws ar 28 Chwefror 2026 |
|---|---|---|
| Rheolaethau Cegin Ysgol - Archwiliad Cynghorol | Archwiliad Cynghorol | Gwaith maes gweithredol |
| Storfeydd Brindley Road - Arsylwi Archwilio Stoc | Archwiliad Cynghorol | Cynllunio a Chyngor |
| Cytundebau Fframwaith | Archwiliadau Corfforaethol | Gwaith maes gweithredol |
| Rheoli Rhwydwaith a Chyfathrebu | Archwiliadau Corfforaethol | Adolygiad o'r Archwiliad |
| Rhenti Tai | Systemau Sylfaenol | Gwaith maes gweithredol |
| Prif Gyfrifyddu Profion yn ystod y flwyddyn | Systemau Sylfaenol | Gwaith maes gweithredol |
| Cyflogres ac AD Profion yn ystod y flwyddyn | Systemau Sylfaenol | Gwaith maes gweithredol |
| Prynu a Thaliadau | Systemau Sylfaenol | Gwaith maes gweithredol |
| Menter Twyll Genedlaethol | Cyfranogiad | Gwaith maes gweithredol |
| HRhR - Llaneirwg | Archwiliadau Ysgolion | Gwaith maes gweithredol |
| HRhR – Ysgol Glan Ceubal | Archwiliadau Ysgolion | Gwaith maes gweithredol |
| HRhR - Ysgol Groes-wen | Archwiliadau Ysgolion | Gwaith maes gweithredol |
| HRhR - Ysgol Nant Caerau | Archwiliadau Ysgolion | Gwaith maes gweithredol |
| Sicrwydd TAW Ysgolion | Archwiliadau Ysgolion | Gwaith maes gweithredol |
| HRhR - Pentre-baen | Archwiliadau Ysgolion | Adolygiad o'r Archwiliad |
| Partneriaeth Caffael Ardal | Archwiliadau o Wasanaethau Penodol | Gwaith maes gweithredol |
| Archifau Morgannwg | Archwiliadau o Wasanaethau Penodol | Gwaith maes gweithredol |
| Lleoliadau Gofal Plant | Archwiliadau o Wasanaethau Penodol | Adolygiad o'r Archwiliad |
| Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru - Caffael | Archwiliad CLG | Gwaith maes gweithredol |

Cymeradwyodd y Pwyllgor Gynllun Archwilio 2025/26 yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2025. Er y caiff ei bennu'n flynyddol, mae'r Cynllun Archwilio'n addasadwy ac yn ymatebol a bydd yn destun asesiadau risg parhaus, blaenoriaethu ac adolygiadau drwy gydol y flwyddyn er mwyn cael y sicrwydd a'r cymorth gorau posibl gan reolwyr. Mae newidiadau yn ystod y flwyddyn yn cael eu cyflwyno, lle y bo'n briodol, er mwyn ymateb i risgiau a materion sy'n dod i'r amlwg.

Mae un archwiliad cynghorol wedi'i ychwanegu at y Cynllun Archwilio, dan ddirprwyaeth y Rheolwr Archwilio i gymeradwyo ymgysylltiadau archwilio newydd o 10 diwrnod archwilio neu lai. Mae'r archwiliad cynghorol yn ymwneud â darparu cyngor ac arweiniad ac arsylwi archwilio stoc ar Storfeydd Brindley Road, gan fod rhywfaint o absenoldeb staff wedi bod ac mae cyfrifoldebau am redeg y storfeydd yn cael eu trosglwyddo rhwng ardaloedd gwasanaethau ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

Caiff archwiliadau bob amser eu dyrannu ar sail sicrwydd uchaf gydag ehangder digonol i liniaru unrhyw risg wrth ddarparu barn archwilio lawn ar amgylchedd rheoli'r Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Dangosir mesurau perfformiad yn adran 3.2 'perfformiad'.

Yn ogystal ag ymgysylltu â Chyfarwyddwyr ar gyflawni'r Cynllun Archwilio ar gyfer 2025/26, mae pob cyfarwyddwr wedi bod yn ymwneud â datblygu Cynllun Archwilio drafft 2026/27. Ceir mwy o fanylion yn y papurau ar gyfer eitem 6.2 ar yr agenda.

2.4 Canfyddiadau Critigol neu Dueddiadau sy'n Dod i'r Amlwg (*Ch4 2025/26 - ar 28 Chwefror 2026*)

Mae’n braf adrodd nad oes unrhyw adroddiad drafft wedi cael ei gyhoeddi gyda’r farn 'annigonol ac angen gwelliant mawr' nac anfoddhaol yn ystod chwarter pedwar, ar 28 Chwefror 2026.

2.5 Canfyddiadau Gwerth am Arian (*Ch4 2025/26 - ar 28 Chwefror 2026*)

Ni chwblhawyd unrhyw archwiliadau ar y thema gwerth am arian yn ystod y cyfnod adrodd. Mae gan fwyafrif llethol yr archwiliadau a gynhaliwyd gan y tîm amcanion sy'n cwmpasu sicrwydd gwerth am arian, sy’n cynnig lefel foddhaol gyffredinol o sicrwydd ar gyfer y cyfnod adrodd. Fodd bynnag, o fewn archwiliad â barn sicrwydd is, byddai bylchau rheoli y mae angen mynd i'r afael â hwy er mwyn rhoi sicrwydd bod amcanion y gwasanaethau hyn yn cael y sylw priodol o ran cyfuniad o ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

## 3 PERFFORMIAD ARCHWILIO A GWERTH YCHWANEGOL

3.1 Gwerth Ychwanegol

Mae cyfarfodydd Rheolwr Cysylltiadau wedi parhau i gael eu cynnal bob chwarter gyda Chyfarwyddwyr a'u cynrychiolwyr yn ystod 2025/26. Mae ffocws penodol wedi cael ei roi i ddeall y blaenoriaethau a’r risgiau o fewn pob tîm rheoli, a’r newidiadau i systemau neu brosesau a gynlluniwyd neu sydd ar y gweill, er mwyn cyfarwyddo cyngor archwilio a llywio’r gwaith o gynllunio ymgysylltiadau archwilio.

Mae adborth gan gleientiaid archwilio wedi bod yn gadarnhaol gyda boddhad o 100% a chyda 89% o gleientiaid yn sgorio meysydd eu harchwiliad fel da neu ardderchog. Mae dau gleient eleni wedi adrodd nad oedd eu harchwiliadau yn ychwanegu gwerth.

Yn yr allbwn archwilio a gyhoeddwyd hyd yma (ar 28 Chwefror 2026), gwnaed 332 o argymhellion, a chytunwyd ar 134 o'r rhain mewn adroddiad terfynol. Mae'r holl argymhellion eraill yn cael eu hystyried gan gleientiaid archwilio trwy allbwn archwilio drafft. Mae'r rhain wedi eu crynhoi isod:

Ffigur 5. Argymhellion a godwyd ac a gytunwyd.

| Sgôr | Argymhellion a wnaed | Argymhellion a gytunwyd | Argymhellion sy'n cael eu hystyried |
|---|---|---|---|
| Coch | 21 | 14 | 7 |
| Coch / oren | 185 | 65 | 120 |
| Oren / gwyrdd | 117 | 50 | 67 |
| Gwyrdd | 9 | 5 | 4 |
| CYFANSWM | 332 | 134 | 198 |

## 3.2 Perfformiad

Fel yr amlinellir yn adran 2.1 ('Gweithgareddau Presennol'), blaenoriaethau a dull y tîm archwilio yn ystod y flwyddyn hyd yn hyn oedd darparu cyfuniad o gymorth rheoli drwy ymgynghori ac ymgysylltu mewn meysydd risg uchel, a dechrau cyflawni ymrwymiadau sicrwydd o'r Cynllun Archwilio.

Darparwyd y sefyllfa o ran perfformiad parthed chwarter tri i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Ionawr 2026, gyda sylwebaeth berthnasol, ac fe'i darperir isod i gyfeirio ati cyn ystadegau chwarter pedwar a gaiff eu coladu ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

Ffocws craidd y tîm yn ystod chwarter pedwar yw cyflawni'r rhan fwyaf o'r digwyddiadau archwilio a restrir yn ffigur 4 i'r cam adrodd drafft. Bydd hyn yn rhoi lefel gref o sylw i'r farn flynyddol gan y Rheolwr Archwilio ar amgylchedd rheoli'r Cyngor.

Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, canolbwyntir ar gwblhau archwiliadau yn brydlon a chyflawni argymhellion archwilio o fewn yr amserlenni gofynnol. Mynychodd y Rheolwr Archwilio gyfarfod yr Uwch Dîm Rheoli ar 10 Mawrth 2026 i ddarparu dadansoddiad perthnasol, i drafod perfformiad, ac i bwysleisio pwysigrwydd gwell sylw gan reolwyr yn y meysydd hyn.

Ffigur 6. Perfformiad yn erbyn y targedau ar gyfer 2025/26 (hyd yma)

| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad 2024/25 | Targed 2025/26 | Canlyniad Ch1 | Canlyniad Ch2 | Canlyniad Ch3 |
|---|---|---|---|---|---|
| Canran y Cynllun Archwilio a gwblhawyd | 57% | 70% | 16% | 30% | 44% |
| Nifer cyfartalog y diwrnodau archwilio cynhyrchiol fesul cyfwerth ag amser llawn | 145 | 150 | 28.53 | 62.35 | 90.79 |
| Nifer cyfartalog yr archwiliadau wedi'u cwblhau fesul cyfwerth ag amser llawn | 5.47 | 8 | 2.68 | 4.02 | 5.36 |
| Canran yr allbynnau archwilio drafft a gyflawnwyd o fewn pedair wythnos | 84% | 90% | 79% | 81% | 82% |
| Canran yr argymhellion archwilio a roddwyd ar waith o fewn yr amserlen y cytunwyd arni | 63% | 80% | 57% | 56% | 61% |

3.4 Gweithredu'r Cynllun Archwilio

Yn ogystal â monitro a rheoli nifer yr archwiliadau a gwblheir, caiff ymgysylltiadau archwilio eu dyrannu er mwyn sicrhau bod ehangder o sicrwydd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, a bod hwnnw'n sail ar gyfer barn flynyddol y Rheolwr Archwilio.

Fel yr amlinellwyd yn adran 2.1 – Gweithgareddau Presennol, cwblhawyd pedwar deg dau o ymgysylltiadau archwilio newydd, ar 28 Chwefror 2026.

3.5 Argymhellion

Darperir crynodeb o'r argymhellion archwilio a'r cynnydd ar y dyddiad adrodd o fewn **Atodiad B**. Mae tracwyr argymhellion llawn ar yr argymhellion sydd ar agor, a'r rhai a gwblhawyd ers y pwyllgor diwethaf, ar gael i Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio drwy wefan SharePoint er gwybodaeth ac i gyfeirio atynt.

Ffigur 7. Dyddiadau diwygiedig ar gyfer rhoi argymhellion ar waith a'r statws

| Cyfarwyddiaeth / Categori Archwilio | Nifer yr argymhellion gyda dyddiadau diwygiedig | Camau gweithredu bellach wedi'u rhoi ar waith | Camau gweithredu ar agor o hyd |
|---|---|---|---|
| Sylfaenol | 7 | 6 | 1 |
| Corfforaethol | 42 | 28 | 14 |
| Allanol a grantiau | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau Oedolion, Tai a Chymunedau | 47 | 44 | 3 |
| Gwasanaethau Plant | 13 | 11 | 2 |
| Datblygu Economaidd | 59 | 19 | 40 |
| Addysg a Dysgu Gydol Oes | 28 | 14 | 14 |

| Cyfarwyddiaeth / Categori Archwilio | Nifer yr argymhellion gyda dyddiadau diwygiedig | Camau gweithredu bellach wedi'u rhoi ar waith | Camau gweithredu ar agor o hyd |
|---|---|---|---|
| Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd | 12 | 6 | 6 |
| Pobl a Chymunedau | 0 | 0 | 0 |
| Adnoddau | 12 | 10 | 2 |
| Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol | 0 | 0 | 0 |
| Rheoli Gwastraff | 5 | 4 | 1 |
| | 225 | 142 | 83 |
| Ysgolion | 289 | 247 | 42 |
| CYFANSWM | 514 | 389 | 125 |

**DS** - Dylid nodi bod y tabl uchod yn cynrychioli'r sefyllfa ar 28 Chwefror 2026, tra bo atodiadau'r traciwr argymhellion yn dangos y sefyllfa fanwl yn erbyn pob argymhelliad ar y dyddiad agosaf posibl i bob cyfarfod Pwyllgor.

## 4. CASGLIAD

4.1 Crynodeb

Mae SAMBau Sector Cyhoeddus y DU wedi bod yn weithredol ers mis Ebrill 2025. Mae'r Tîm Rheoli Archwilio wedi parhau i ganolbwyntio ar ymgorffori'r drefn hon trwy fethodolegau archwilio newydd, rhaglen hyfforddi a datblygu, a'r diweddariadau i'r Strategaeth Archwilio a'r Siarter a ystyriwyd gan y Pwyllgor ym mis Mawrth.

Bu dechrau da o ran cyflawni Cynllun Archwilio 2025/26, er ei fod yn parhau i fod yn is na'r hyn a dargedwyd (gweler Adran 3.2 – Perfformiad). Mae 19 archwiliad ar y gweill sydd wedi'u targedu i'w cwblhau erbyn diwedd y chwarter. Byddai cyhoeddi'r adroddiadau hyn yn cyflawni 70% o'r Cynllun Archwilio wedi'i dargedu. Bydd unrhyw adroddiadau archwilio nad ydynt wedi'u cyhoeddi ar hyn o bryd yn dilyn yn gynnar yn chwarter un 2026/27. O ystyried cyfran ac ehangder y Cynllun Archwilio sydd wedi'i gwblhau ac sydd ar y gweill, nid oes risg i ddarparu barn archwilio lawn ar amgylchedd rheoli cyffredinol y cyngor eleni.

Ar ôl i'r Pwyllgor ystyried penodi'r Rheolwr Archwilio yn Gyfarwyddwr Rhwydwaith Gwres Caerdydd, Corff Diben Arbennig hyd braich y mae'r Cyngor yn berchen arno'n llwyr ym mis Mawrth, bydd y Prif Weithredwr yn ffurfioli newidiadau i'r Bwrdd yn fuan. Bydd mesurau diogelu annibyniaeth y rôl hon nad yw'n un archwilio, fel y cytunwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor, yn berthnasol.

# Statws yr Adroddiad (ar 28 Chwefror 2026)

Statws yr Adroddiad (ar 28 Chwefror 2026)

| Barn Archwilio | Maes Archwilio | Argymhellion Risg Uchel | | Statws (Os nad yw'n derfynol) |
|---|---|---|---|---|
| | | Wedi ei Gynnig | Wedi ei Gytuno | |
| | Sylfaenol / Uchel | | | |
| Effeithiol | Dyraniadau, gosodiadau a lleoedd gwag cf | | | |
| | Taliadau a Phrosesau Prynu, Profi yn Ystod y Flwyddyn cf | | | |
| | Prosesau Cyflogres ac AD 2023/24 cf | | | |
| Effeithiol gyda lle i wella | Rheoli Trysorlys cf | | | Drafftiau Cyhoedd wyd |
| | Rheoli Risg Technoleg | | | |
| | Gwerth am Arian - Buddsoddi i Arbed | | | |
| | Ymdrin â Chwynion Corfforaethol | | | |
| | Treth Gyngor | | | |
| | Pensiynau a Buddsoddiadau | | | |
| | Addysg - CTY | | | |
| | Cyflogres ac AD, Profi yn Ystod y Flwyddyn 2024/25 cf | | | |
| | Datblygu ac Adfywio Tai cf | | | |
| | Adennill Incwm cf | | | |
| | Rhaglenni a Phrosiectau cf | | | |
| | Diogelu | | | |
| Annigonol, angen Angen gwella | Milltiredd a Chynhaliaeth | 1 | | Drafft |
| | Rheolaethau Caffael o Dan Drothwy'r Tendr cf | | | |
| | Storfeydd Ffordd Lamby cf | 1 | 1 | |
| | Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw Adeiladau cf | 2 | 2 | |
| | Canolig | | | |
| Effeithiol | Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd | | | |
| | Byw â Chymorth | | | |
| Effeithiol gyda lle i wella | Ysgol Gynradd Sant Padrig | | | Drafftiau Cyhoedd wyd |
| | Ysgol Gynradd Gabalfa | | | |
| | Canolfan Blant Integredig Trelái a Chaerau | | | |

| Barn Archwilio | Maes Archwilio | Argymhellion Risg Uchel | | Statws (Os nad yw'n derfynol) |
|---|---|---|---|---|
| | | Wedi ei Gynnig | Wedi ei Gytuno | |
| | Trafnidiaeth Ysgol | | | |
| | Cyllidebau Diffyg / Rheolaeth Ariannol Ysgolion | | | |
| | Ysgol Gynradd Gatholig Sant Philip Evans | | | |
| | Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Paul | | | |
| | Ysgol Melin Gruffydd | | | |
| | Ysgol Pwll Coch | | | |
| | CAMAU DILYNOL - Cartref Plant Falconwood cf | | | |
| | Ysgol Gynradd Llys-faen cf | | | |
| | Tîm Dyletswydd Argyfwng cf | | | |
| | Gofal Preswyl cf | | | |
| | Gwasanaethau Llywodraethwyr cf | | | |
| | Ysgol Gynradd yr Holl Seintiau cf | | | |
| | Ysgol Uwchradd Caerdydd cf | | | |
| | Ysgol Hamadryad cf | | | |
| | Ysgol Gynradd Tredelerch cf | | | |
| | Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Teilo Sant cf | | | |
| | Ysgol Uwchradd Radur cf | | | |
| | Cynilion Plant (Arian Poced) cf | | | |
| | Ysgol Gynradd Llanedern cf | | | |
| | Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr cf | | | |
| | Ysgol Meadowbank cf | | | |
| | Gwasanaethau Dydd Iechyd Meddwl | | | |
| | Ysgol Uwchradd y Dwyrain | | | |
| | Ysgol Gynradd Coryton cf | | | |
| | Datgan Buddiannau cf | | | |
| | Gofal Cartref | | | |
| | Cydymffurfiaeth Statudol | | | |
| | Gwasanaeth Cyfleusterau i'r Anabl | | | |
| | Gwasanaethau Profedigaeth | | | |

| Barn Archwilio | Maes Archwilio | Argymhellion Risg Uchel | | Statws (Os nad yw'n derfynol) |
|---|---|---|---|---|
| | | Wedi ei Gynnig | Wedi ei Gytuno | |
| | Y Tyllgoed cf | | | |
| | Ysgol Uwchradd Gatholig Corpus Christi cf | | | |
| | Tongwynlais cf | | | |
| | Cynnal a Chadw Priffyrdd cf | | | |
| | Ysgol Greenhill | | | |
| | Gwasanaeth Cerdd | 1 | 1 | |
| Annigonol, angen Gwella mawr | Lleoliadau Anghofrestredig cf | 1 | | Drafftiau Cyhoeddwyd |
| | Ystâd Fuddsoddi | 2 | | |
| | Ysgol Gynradd Sant Cadog | 2 | | |
| | Ysgol Glan Morfa | 2 | | |
| | Motocross Caerdydd cf | 2 | 2 | |
| | Ysgol Uwchradd Llanisien cf | 1 | 1 | |
| Anfoddhaol | UCD - Teulu Ysgolion Y Deryn | 7 | 7 | |
| | Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Edern | 6 | 6 | |
| | Grantiau / Cyfrifon / Cyrff Allanol | | | |
| Dim sicrwydd safbwynt wedi'i roi | Adolygiad Cynghorol Storfeydd Brindley Road cf | 2 | | Drafft |
| | Adolygiad Cynghorol Ffreutur y Castell cf | | | |
| | Adolygiad ar ôl cau Neuadd Dewi Sant cf | | | |
| | Cydbwyllgorau - Prosiect Gwyrdd | Datganiad Adolygiadau Cyfrifon / Ardystiadau / Cymorth | | |
| | Cydbwyllgorau – Awdurdod Iechyd Porthladd | | | |
| | Cydbwyllgorau - Archifau Morgannwg | | | |
| | Ffurflen Corff Bach - Cydbwyllgor y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru | Ardystiad | | |
| | Grant Arloesi | | | |
| | Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Caerdydd 2024/2025 | | | |
| | Cynghorol Dull Profi Awtomeiddio Proses Robotig - Proses SAP a Chyfrifon Taladwy | Adolygiadau Cynghorol | | |
| | System CAM Newydd – Cynghorol | | | |
| | Taliadau a Phrosesau Prynu - HRhR 2025/2026 | Hunanasesiadau Rheoli Risg (HRhRau) | | |
| | Cyflogres ac AD - HRhR 2025/2026 | | | |

Crynodeb o Argymhellion - (Argymhellion agored 'Coch' a 'Coch / Oren') Atodiad B

Crynodeb o Argymhellion - (Argymhellion agored 'Coch' a 'Coch / Oren')

| | | | | 'argymhellion agored' - yn ôl sgôr sicrwydd archwiliad | | | | | 'argymhelliad agored' yn ôl statws | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfarwyddiaeth / Adran | Nifer yr Archwiliadau | Nifer yr Argymhellion Coch | Nifer yr Argymhellion Coch/Oren | Nifer yr Argymhellion Effeithiol | Nifer yr Argymhellion Effeithiol gyda Lle i Wella | Nifer yr Argymhellion Annigonol ac Angen Gwelliant Mawr | Nifer yr Argymhellion Anfoddhaol | Nifer yr Argymhellion Dd/B | Nifer yr Argymhellion â Dyddiad Gweithredu Diwygiedig | Nifer yr Argymhellion lle mae'r dyddiad gweithredu wedi pasio | Dyddiad targed presennol ddim ar y gweill | |
| Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion, Cymunedau a Thai | 1 | | 1 | | 1 | | | | 1 | | 1 | |
| Gwasanaethau Plant | 4 | 2 | 9 | | 8 | 3 | | | 2 | 9 | 2 | *7 - camau gweithredu hwyr, lle mae diweddariad/tystiolaeth yn cael ei adolygu.<br>2 - camau gweithredu hwyr, lle gofynnir am dystiolaeth er mwyn cau cam gweithredu* |
| Llywodraethu Corfforaethol | 8 | 1 | 15 | | 12 | 4 | | | 6 | 5 | 11 | *5 - camau gweithredu hwyr, lle mae angen diweddariad* |
| Datblygu Economaidd | 12 | 7 | 21 | | 5 | 15 | | 8 | 22 | | 28 | *8 - Dd/B - yn ymwneud ag Archwiliadau Cynghorol* |
| Addysg a Dysgu Gydol Oes | 5 | 4 | 26 | | 8 | 4 | | 18 | 10 | 19 | 11 | *9 - cam gweithredu hwyr, lle mae angen diweddariad<br>1 - cam gweithredu hwyr, lle mae diweddariad yn cael ei adolygu<br>9 - camau gweithredu hwyr, lle gofynnir am dystiolaeth er mwyn cau cam gweithredu<br>18 - Dd/B - yn ymwneud ag Archwiliadau Cynghorol* |
| Addysg a Dysgu Gydol Oes - Ysgolion | 21 | 14 | 95 | | 48 | 12 | 49 | | 20 | 84 | 25 | *66 - camau gweithredu hwyr, lle mae angen diweddariad<br>4 - cam gweithredu hwyr, lle mae diweddariad yn cael ei adolygu<br>14 - camau gweithredu hwyr, lle gofynnir am dystiolaeth er mwyn cau cam gweithredu* |
| Allanol a Grantiau | | | | | | | | | | | | |
| Sylfaenol (Adnoddau) | | | | | | | | | | | | |
| Pobl a Chymunedau (Datblygu ac Adfywio) | | | | | | | | | | | | |
| Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd | 5 | 2 | 17 | | 12 | | | 7 | 5 | 4 | 15 | *2 - camau gweithredu hwyr, lle mae angen diweddariad<br>1 - cam gweithredu hwyr, lle gwnaed cais am dystiolaeth er mwyn cau'r cam gweithredu<br>7 - Dd/B - yn ymwneud ag Archwiliadau Cynghorol* |
| Adnoddau | 2 | | 3 | | 1 | 2 | | | | 3 | | *3 - camau gweithredu hwyr, lle mae angen diweddariad* |
| **CYFANSYMIAU** | **58** | **30** | **187** | **0** | **95** | **40** | **49** | **33** | **66** | **124** | **93** | |